Welsh Liberal Democrats
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

www.bobkilmister.mycouncillor.org.uk
Bobkilmister@aol.com

# Ffocws

Cynghorwr Sir
Bob Kilmister
Fagwyr Einon
Llanychaer
SA65 9SP.
Tel 01348 875566

Eich Cynghorydd Yn Cadw mewn Cysylltiad.

***TAFLEN NEWYDDION EICH TÎM DEMOCRATIAID RHYDDFRYDOL FFOCWS.***
CANOLFAN GYNGHORI AR GAEL 7 DIWRNOD YR WYTHNOS FFONIO 875566. ***YMA I HELPU'R HOLL CYMDEITHAS.***

**Rhifyn 18**
**Mehefin 09**

## Cynllun Lleol Newydd

Llawer o ddiolch i'r 106 ohonoch chi a drodd i fyny i'r Cyfarfod Cyhoeddus a drefnwyd gan y Cyngor Cymunedol a Bob Kilmister. Roedd yn gynulliad ffantastig ac roedd hi'n gymorth mawr iawn cael clywed eich barn. Wedi hynny, paratôdd Bob a'r Cyngor Cymunedol gyflwyniad ar y cyd i'r Parc Cenedlaethol, a gellir ei ddarllen yn yr Hen Ysgol neu ar y we yn www.bobkilmistermy.councillor.org.uk

**Ein cynigion allweddol oedd***:*

- ✓ *Tai Ymddeol i'w darparu.*
- ✓ *Tai fforddiadwy ar gyfer eu rhenti neu trwy gynlluniau rhannu ecwiti ar dir yn Rhoshelyg ac ar gae cyfagos.*
- ✓ *Rhandiroedd newydd yn yr un safle.*
- ✓ *Llyn cydbwyso er mwyn darparu amryfalaeth a gwella draenio ar gyfer Spring Hill.*
- ✓ *Ein gwrthwynebiad i gynlluniau i godi cartrefi ar safle wrth ochr y Cae Hamdden.*
- ✓ *Y cynlluniau ond yn cynnwys cyfran fechan o Ddinas Cross.*

*Mae'r Polisi Iaith Gymraeg yn wael iawn.*

<u>Cyfarfod Cyhoeddus 25/06/09 yn yr Hen Ysgol 19.30</u>

Bellach, mae'r Parc Cenedlaethol wedi cyhoeddi'r holl gyflwyniadau, ac mae nawr i fyny i unigolion i gefnogi neu wrthwynebu'r rhain yn ysgrifenedig. Mae'r Cyngor Cymunedol a minnau wedi trefnu cyfarfod cyhoeddus arall yn Yr Hen Ysgol ar 25/06/09 am 19.30 lle bydd y Parc Cenedlaethol yn bresennol i egluro'r broses. Bydd mapiau a ffurflenni ar gael. Dim ond tan 29/07/09 sydd gennym ni i gyflwyno ein barn. Chewch chi ddim cyfle arall am ddeng mlynedd i roi'ch barn gerbron felly da chi dewch. Nodwch na fyddwn ni'n dadlau'r cynigion ar gyfer unrhyw safle, dim ond sicrhau bod pawb yn llawn ymwybodol ac yn gallu gwneud ymateb. Os na allwch chi fod yn bresennol yna cysylltwch â Bob ac mi wnaiff e geisio eich helpu chi.

## Bettws Newydd



Mynychodd Bob Kilmister gyfarfod Pwyllgor Datblygu'r Parc Cenedlaethol fel ymwelydd lle gwnaethant benderfynu o 10 pleidlais i 6 i gymeradwyo'r adeiladu hwn. Mae'n hyllbeth ac er bod yr adeilad wedi'i adeiladu yn sylfaenol i'r fanyleb, mae'r "slab concrid" o leiaf 1.5 yn uwch na'r hyn a gynlluniwyd. Fodd bynnag, cymeradwyodd y Parc Cenedlaethol y slab a oedd hefyd wedi distrywio gwlypdir. Buasai Bob Kilmister yn hoffi gweld y Parc Cenedlaethol yn colli eu pwerau cynllunio. "Maent yn gwango anetholedig sydd heb unrhyw fandad i benderfynu beth ddylai ddigwydd yn ein cymunedau", dywedodd Bob. **Ydych chi'n cytuno?**
A wnewch chi bleidleisio ar wefan Bob www.bobkilmister.mycouncillor.org.uk.

***FFOCWS YN GWEITHIO GYDOL Y FLWYDDYN NID DIM OND ADEG ETHOLIAD.***

**Eich Cynghorydd Yn Cadw mewn Cysylltiad**